

Cefnogaeth i Staff sy'n Cynorthwyo Myfyrwyr mewn Argyfwng

1) Cefndir

Mae'n bosibl bod rhai aelodau staff mewn adrannau academiaidd neu adrannau gwasanaeth yn cynorthwyo myfyrwyr sy'n mynd trwy argyfwng o ran lles personol, emosiynol neu iechyd meddwl. Mae'r Brifysgol yn sylweddoli bod ymwneud ag unigolyn mewn gofid yn gallu peri bod staff nid yn unig yn ansicr ynglŷn â'r ffordd i ymateb ond gall hefyd wneud iddynt deimlo'n gyfrifol amdanynt, yn ddiymadferth, yn ofnus yn rhwystredig neu'n flin. Felly, mae gan y Brifysgol strategaeth ar gyfer ymdrin ag anghenion cymorth yr aelodau staff hynny sy'n cynorthwyo myfyrwyr mewn argyfwng.

2) Diben

Mae Prifysgol Aberystwyth yn ymrwymedig i greu'r amodau gwaith gorau posibl i gefnogi staff ac i greu amgylchedd sy'n gwbl gytûn â bywydau ei gweithwyr ac yn cyfrannu'n weithredol i'w gwella. Ym Mholisi Iechyd a Lles Staff y Brifysgol mynegir ymrwymiad y Brifysgol, fel cyflogwr cyfrifol, i ddarparu amgylchedd gwaith ac arferion rheoli sy'n hyrwyddo lles ac iechyd ei gweithwyr (paragraff 1.2).

Ar ben hynny, yn unol â'r polisi (paragraff 1.3), bydd y Brifysgol yn cyflawni ei hymrwymiad trwy:

- Sylweddoli beth yw'r peryglon neu'r amodau a allai gyfrannu at greu lefelau anaddas o bwysau yn gysylltiedig â gwaith a gwneud asesiadau risg i ddileu neu reoli'r peryglon yn deillio o'r pryder. Caiff yr amgylchiadau a'r asesiadau risg eu cadw wedyn o dan adolygiad;
- Cysylltu â chynrychiolwyr diogelwch yr undebau llafur perthnasol ac unrhyw randdeiliaid eraill (e.e. Penaethiaid Adrannau), ar faterion yn gysylltiedig â lles staff;
- Cynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o faterion cysylltiedig â straen ac o bwysigrwydd lles ac iechyd da yn gyffredinol trwy nabod, rhwystro, rheoli ac yna monitro achosion straen a phryder yn y gwaith, gan gynnwys os yw'n briodol hyfforddiant a hyrwyddo iechyd;
- Darparu gwell hyfforddiant i'r holl reolwyr a goruchwylwyr mewn arferion rheoli da sy'n addas i'r polisi hwn;
- Darparu gwasanaeth cynghori cyfrinachol i staff os yw eu lles yn cael ei effeithio gan straen;
- Sicrhau bod adnoddau priodol yn cael eu darparu fel y gall rheolwyr weithredu strategaeth lles staff y Brifysgol.

3) Manteision

Trwy gydnabod yr effaith y mae cynorthwyo myfyrwyr mewn argyfwng yn gallu ei gael ar staff a thrwy ymateb yn briodol bydd y Brifysgol yn sicrhau ei bod yn cyflawni ei hymrwymiad tuag at les staff, gan wneud y Brifysgol yn amgylchedd gwirioneddol gefnogol a chadarnhaol.

4) Darpariaeth

Mae'r Brifysgol yn darparu'r gefnogaeth ganlynol i gynorthwyo staff sy'n ymateb i fyfyrwyr mewn argyfwng:

a) Adran yr aelod staff

Mae cefnogaeth i'w chael i bob aelod staff gan eu rheolwr llinell. Y rheolwr llinell yw'r man cyswllt cyntaf yn achos unrhyw beth a allai effeithio ar aelod o staff o ganlyniad i'w hymwneud â myfyrwyr sy'n cael argyfwng lles personol, emosiynol neu iechyd meddwl.

b) Gwasanaethau Cymorth i Fyfyrwyr a Gyrfaoedd

Gellir cael cyngor ynglŷn â dulliau i ymdrin ag argyfwng gan staff y Gwasanaethau Cymorth i Fyfyrwyr a Gyrfaoedd dros y ffon, trwy e-bost neu'n bersonol. Hefyd, gall staff y gwasanaethau hyn roi cyngor am yr holl wasanaethau sydd gan y Brifysgol i gynorthwyo myfyrwyr trwy gyfnod o argyfwng. Yn ogystal â hyn, maent yn darparu nifer o gyrsiau datblygu proffesiynol parhaus ac yn cynnal gwefan gynhwysfawr sy'n rhoi arweiniad i staff ynglŷn ag ymdrin â nifer o faterion yn gysylltiedig â chymorth.

Er mai diben pennaf y Gwasanaethau yw rhoi cymorth i fyfyrwyr yn uniongyrchol, fe fyddant serch hynny yn cynorthwyo staff yn eu hymwneud a myfyrwyr. Maent yn gwneud hyn trwy edrych ar wahanol opsiynau a gwneud awgrymiadau i arwain yr aelodau staff sy'n cynorthwyo myfyrwyr sydd mewn argyfwng lles personol, emosiynol neu iechyd meddwl. Bydd y cyngor yn aml yn canolbwyntio ar yr angen i greu ffiniau, i gyfeirio pobl ymlaen at eraill, a sicrhau bod yr aelodau staff unigol eu hunain yn cael cefnogaeth.

c) Adnoddau Dynol

Cynigir gwasanaeth cyngori allanol i roi dull cwbl gyfrinachol ac annibynnol i staff o gael cymorth ynghylch pob math o faterion, cysylltiedig â gwaith ai peidio, 365 diwrnod y flwyddyn a 24/7. Efallai nad oes llawer yn gwybod am y gwasanaethau hyn ond maent ar gael i staff sy'n chwilio am gefnogaeth iddyn nhw'u hunain o ganlyniad i'w cyswllt â myfyrwyr mewn argyfwng. Gall aelodau staff gysylltu â'r Rhaglen Cymorth i Weithwyr yn uniongyrchol i drefnu cael cyngor. Ceir manylion y gwasanaeth fan hyn: <https://www.aber.ac.uk/cy/hr/employment-information/eap/>. Mae nifer o adnoddau ychwanegol i'w cael ar wefan y cyflenwyr.

Fersiwn:	1.2	Dyddiad Cyhoeddi:	01/02/2020
Rheswm am y diweddaru:	Diweddaru gwybodaeth		
Cymeradwywyd:	Pwyllgor Cymorth Myfyrwyr Pwyllgor Llywodraethu a Chydymffurfio	Mewn grym o:	01/02/2020
Rhanddeiliaid eraill:	Adnoddau Dynol		
Cyswllt:	Caryl Davies, Pennaeth y Gwasanaethau Cymorth i Fyfyrwyr a Gyrfaoedd ccd@aber.ac.uk		

